

Crynodeb o Adborth Defnyddwyr Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 – Opsiynau ar gyfer Allbynnau

1. Cyflwyniad

Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) 2017-18 yn casglu gwybodaeth am gyflwr ac effeithlonrwydd ynni ym mhob math o gartrefi yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolwg Cymreig cyntaf i gyflwr tai yng Nghymru yn 1968 ac maent wedi'u cynnal tua phob pum mlynedd ers hynny. Yr arolwg cyflwr tai diwethaf yng Nghymru cyn arolwg 2017-18 oedd Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru yn 2008.

O Dachwedd 2018 ymlaen, bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) o fewn Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg 2017-18 ei wneud rhwng Awst 2017 ac Ebrill 2018.

Yn Chwefror 2018, cynhaliodd KAS arolwg defnyddwyr i gael adborth ar nifer o ffyrdd posibl i rannu'r canlyniadau, a beth fyddai'r ffordd orau o ddiwallu anghenion defnyddwyr.

Cafwyd cyfanswm 44 o ymatebion i'r arolwg defnyddwyr, a oedd yn rhedeg rhwng 20 Chwefror 2018 ac 16 Mawrth 2018. O'r rhain, daeth 11 o'r ymatebion oddi wrth awdurdodau lleol, 7 oddi wrth Fudiadau Trydydd Sector, a'r gweddill o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys canghennau Llywodraeth Cymru¹ a chwmnïau preifat.

Hoffem ddiolch i bawb a aeth i'r drafferth i ymateb i'r arolwg defnyddwyr. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd, gyda siartiau i ddangos canlyniadau'r cwestiynau meintiol a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg. Ar ôl ystyried yr adborth hwn, mae ein cynigion ar gyfer canlyniadau WHCS wedi'u rhoi yn yr adran Y Camau Nesaf.

Mae'r arolwg defnyddwyr i'w weld yn ei gyfanrwydd yn Atodiad A.

2. Prif bwyntiau

- Nododd ymatebwyr mae eu blaenoriaethau ar gyfer WHCS 2017-18 yw dadansoddiad manwl o'r canlyniadau a chael y prif ganlyniadau.
- Dachwedd 2018 ymlaen, bydd canlyniadau cyntaf WHCS 2017-18 yn cael eu cyhoeddi. Dywedodd defnyddwyr mai eu prif ddiddordeb yw cael y prif ganlyniadau fel Datganiad Ystadegol Cyntaf byr (4-5 tudalen).

¹ Nid oedd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi cael gwahoddiad penodol i gwblhau'r arolwg oherwydd ymgynghorwyd â hwy trwy weithdai ac e-bost.

- Ar ôl cyhoeddi'r prif ganlyniadau, bydd y gwaith yn cychwyn ar ddadansoddiad pwnc penodol mwy manwl. Dywedodd defnyddwyr yr hoffent weld y dadansoddiad dilynol yn cael ei gyflwyno fel cyfres o fwletinau byr tua 2-3 tudalen o hyd.
- Mae bwletinau a sleidiau ar ffurf ffeithluniau o'r prif ganlyniadau'n dueddol o gael eu hystyried yn llai defnyddiol fel prif ffyrdd o gyflwyno'r canlyniadau.
- Nododd ymatebwyr pa mor bwysig yw hi fod setiau data manwl ar gael yn ychwanegol at y datganiadau ystadegol, er mwyn eu galluogi i gynnal eu dadansoddiad eu hunain o'r data.
- Y pynciau yn yr arolwg sydd o ddiddordeb mwyaf i ddefnyddwyr yw stoc dai a nodweddion aelwydydd.

3. Y camau nesaf

Yn dilyn yr adborth a gafwyd i'r arolwg, y trafodaethau â chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru ac ystyriaethau ehangach, mae ein cynigion fel a ganlyn:

- Byddwn yn cyhoeddi Datganiad Ystadegol Cyntaf byr o'r prif ffigurau o WHCS 2017-18 ym mis Tachwedd 2018. Bydd tablau Excel o'r prif ddata'n cyd-fynd â'r datganiad.
- Bydd amrywiaeth o wybodaeth gefndir yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r prif ganlyniadau fel yr Adroddiad Technegol a'r Adroddiad Ansawdd i alluogi defnyddwyr i ddehongli'r canlyniadau'n briodol.
- Ymdrinnir â ffigurau a dadansoddiad o Dlodi Tanwydd ar wahân ac fe'u cyhoeddir yn gynnar yn 2019.
- Byddwn yn dechrau gweithio ar y dadansoddiad pwnc benodol ar ôl cyhoeddi'r prif ganlyniadau. Bydd hyn yn digwydd ar ffurf cyfres o Fwletinau Ystadegol byr gyda thablau Excel o'r canlyniadau i gyd-fynd â hwy. Mae'n debyg mai stoc dai a nodweddion aelwydydd fydd y pwnc cyntaf, yn seiliedig ar hoffterau defnyddwyr.
- Bydd setiau data'n cael eu harchifo gyda Gwasanaeth Data'r DU mor agos at adeg cyhoeddi'r Datganiad Ystadegol Cyntaf â phosibl.
- Bydd modd i ddefnyddwyr wneud cais i ni i gael mynediad at setiau data mwy manwl ar gyfer darnau mwy penodol o'r dadansoddiad, o dan Gytundebau Mynediad at Ddata.
- Mewn amser rydym yn gobeithio y gallwn ddatblygu rhyw fath o gyfrwng rhyngweithiol i weld data, ond ni fyddwn yn edrych ar hyn nes bydd y dadansoddiad llawn wedi'i gyhoeddi.

4. Cefndir

Cynhaliodd KAS yr arolwg defnyddwyr ar-lein (Atodiad A), a oedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, trwy gyfrwng y platfform arolygon ar-lein Questback. Cafodd rhanddeiliaid y Rhaglen Dystiolaeth ar

Gyflwr Tai (HCEP) eu hysbysu o'r arolwg trwy [Ddiweddariad Chwefror HCEP i Randdeiliaid](#). Mae cronfa ddata rhanddeiliaid HCEP yn cynnwys tua 300 o ddefnyddwyr sydd naill ai wedi datgan diddordeb yn y Rhaglen gyfan yn y gorffennol, unrhyw brosiectau penodol sy'n rhan o'r Rhaglen, neu wedi cofrestru i gael diweddariadau chwarterol. Roedd yr holiadur hefyd wedi'i hysbysebu ar dudalen gwefan WHCS, ym mwletin Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru ac ar Twitter. Cafodd hefyd ei ddsbarthu i aelodau'r grwpiau defnyddwyr canlynol:

- [Grŵp Gwybodaeth Tai](#)
- [Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector i Gymru](#)
- [Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru](#)
- [Rhwydwaith Dadansoddwyr Iechyd Cymru](#)
- [Rhwydwaith Ymwchwil Tai Cymru \(WISERD\)](#)

Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau'n bennaf a oedd yn disgrifio ffyrdd posibl o rannu canlyniadau, ynghyd â syniad o ba mor hir y byddai'n ei gymryd i'w cynhyrchu, a gofynnwyd i ymatebwyr i sgorio defnyddioldeb pob opsiwn. Cafodd cwestiynau eu cynnwys hefyd i alluogi ymatebwyr i roi mwy o fanylion am y rhesymau am eu sgoriau ac awgrymiadau posibl ar gyfer ffyrdd eraill o gyflwyno canlyniadau a fyddai'n helpu i'w gwneud yn ddefnyddiol.

5. Canlyniadau'r arolwg defnyddwyr

Cafwyd 44 o ymatebion i'r arolwg defnyddwyr. Nid oedd pob ymatebwr wedi ateb pob cwestiwn. Cafwyd rhwng 41 a 44 o ymatebion i bob cwestiwn.

O'r 44 ymateb, roedd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- 11 gan Awdurdodau Lleol
- 7 gan fudiadau Trydydd Sector
- 4 gan gwmnïau preifat
- 3 gan Lywodraeth Cymru²
- 2 gan sefydliadau addysgol
- 2 gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
- 14 arall
- 1 a oedd heb nodi ei sefydliad

² Nid oedd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi cael gwahoddiad penodol i gwblhau'r arolwg oherwydd ymgynghorwyd â hwy trwy weithdai ac e-bost.

O'r 44 ymateb, roedd:

- 12 gan ddadansoddwyr llywodraeth / y sector cyhoeddus
- 9 gan lunwyr polisïau
- 3 gan academyddion
- 1 gan swyddog cyfathrebu / digidol
- 17 arall
- 1 a oedd heb nodi ei sefydliad


Ymatebion i Adran 1: Prif flaenoriaethau i ddefnyddwyr

Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio'r canlynol o 1 (blaenoriaeth uchaf) i 5 (blaenoriaeth isaf):

- Cael prif ganlyniadau
- Cyflwyno canlyniadau mewn ffordd apelgar (e.e. defnyddio sleidiau PowerPoint / Ffeithluniau)
- Lwfans ansicrwydd (e.e. "plws neu finws x%" yn y canlyniadau)
- Cyd-destun polisi manwl ar gyfer y canlyniadau
- Dadansoddiad manwl o'r canlyniadau

Mae Ffigur 1 yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n sgorio pob pwynt fel '1' neu '2'.

Ffigur 1: Blaenoriaethau defnyddwyr (canran yr ymatebwyr sy'n rhoi '1' neu '2' allan o 5 i bob opsiwn)



Mae'r canlyniadau'n dangos bod y defnyddwyr yn fwyaf awyddus i gael dadansoddiad manwl o'r canlyniadau (63 y cant) a chael y prif ganlyniadau (60 y cant). Yr opsiwn lleiaf poblogaidd oedd lwfans ansicrwydd yn y canlyniadau (10 y cant).


Ymatebion i Adran 2: Blaenoriaethau i'r prif ganlyniadau

O fis Tachwedd 2018 ymlaen, bydd canlyniadau cyntaf WHCS 2017-18 yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf. Mae hyn yn ofynnol ar gyfer Ystadegau Gwladol ac i bob pwrpas mae'n gwneud y data'n ddata cyhoeddus i gael ei ddefnyddio'n fwy eang. Cyflwynwyd y pum opsiwn cyhoeddi canlynol i ymatebwyr ar gyfer rhyddhau'r data, gyda manylion am hyd, fformat a pha mor gyflym y byddai ar gael i ddefnyddwyr. Bydd tablau Excel/StatsCymru ar gael ar gyfer pob opsiwn, pan yn briodol.

Math	Hyd	Ffurf	Amseroldeb
Datganiad Ystadegol Cyntaf	Byr (tua 4-5 tudalen)	Detholiad bach o destun, tablau a siartiau	Cyhoeddi'n gynt
Sleidiau o'r canlyniadau allweddol	Byr (tua 8-10 sleid)	Detholiad bach o siartiau a ffeithluniau	Cyhoeddi'n gynt
Bwletin ffeithluniau byr	Byr (tua 2-3 tudalen)	Ffeithluniau'n bennaf	Cyhoeddi'n hwyrach
Datganiad manwl	Hir (tua 10-15 tudalen)	Cymysgedd o naratif a siartiau	Cyhoeddi'n hwyrach
Data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru	Detholiad bach o dablau'n cyflwyno'r canlyniadau lefel uchel	Tablau ar gael ar ffurf data agored drwy StatsCymru	Cyhoeddi'n hwyrach

Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio'r canlynol o 1 (y mwyaf defnyddiol) i 5 (y lleiaf defnyddiol):

Ffigur 2: Yr opsiynau cyhoeddi mwyaf defnyddiol ar gyfer y prif ganlyniadau (canran yr ymatebwyr a dywedodd ‘mwyaf defnyddiol’ neu ‘defnyddiol’ ar gyfer pob opsiwn)



Dywedodd defnyddwyr eu bod yn fwyaf awyddus i gael y prif ganlyniadau fel Datganiad Ystadegol Cyntaf byr (4-5 tudalen) (61 y cant). Yr opsiwn mwyaf poblogaidd wedyn oedd cael y canlyniadau fel data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru (41 y cant) neu fel Datganiad Ystadegol manwl (10-15 tudalen) (39 y cant). Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn teimlo na fyddai cael y canlyniadau fel bwletin Ffeithluniau byr neu sleidiau PowerPoint mor ddefnyddiol.

Sylwadau defnyddwyr ar y prif ganlyniadau

Gofynnwyd i ddefnyddwyr ychwanegu unrhyw sylwadau ar yr opsiwn a ffefrid ganddynt. Ymatebodd wyth defnyddiwr i'r cwestiwn hwn. Nodwyd pwysigrwydd cael mynediad at y data manwl.

“Mi hoffwn allu archwilio'r data i'w ddefnyddio mewn modelu/cyfrifiadau, felly gorau po fwyaf o ddata manwl y gellir ei gyhoeddi o fy safbwynt i; nid yw PowerPoint a ffeithluniau'n debygol o gynnwys digon o ddata i fod yn ddefnyddiol.”

“Bod yr holl wahanol ffyrdd, o wybodaeth, yn hygyrch ac ar gael.”

“Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r prif ganlyniadau yn cael eu cyhoeddi ar eu pen eu hunain ond bod sail resymegol i gyd-fynd â hwy.”

Ymatebion i Adran 3: Blaenoriaethau ar gyfer y dadansoddiad dilynol


Ar ôl cyhoeddi'r prif ganlyniadau, gall gwaith ddechrau ar ddadansoddiad pwnc benodol mwy manwl. Ymdrinnir â ffigurau Tlodi Tanwydd a'r dadansoddiad ar wahân a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n gynnar yn 2019.

Cyflwynwyd y pum opsiwn cyhoeddi canlynol i'r ymatebwyr ar gyfer y canlyniadau dilynol, gyda manylion am eu hyd, fformat a pha mor gyflym y byddant ar gael. Bydd tablau Excel/StatsCymru ar gael ar gyfer pob opsiwn, pan yn briodol.

Math	Hyd	Ffurf	Amseroldeb
Bwletinau byr	Byr (tua 2-3 tudalen)	Canlyniadau allweddol - testun, siartiau a thablau'n bennaf. Dim ond cyfeiriad byr at y cyd destun polisi.	Cyhoeddi'n gynt.
Sleidiau o'r canlyniadau allweddol	Byr (tua 8-10 sleid)	Detholiad bach o siartiau a ffeithluniau	Cyhoeddi'n gynt
Bwletinau ffeithluniau byr	Byr (tua 2-3 tudalen)	Ffeithluniau'n bennaf	Cyhoeddi'n hwyrach
Datganiadau manwl	Hir (tua 6-8 tudalen)	Cymysgedd o naratif, siartiau a dadansoddi mwy trylwyr. Mwy o drafod ar y cyd destun polisi.	Cyhoeddi'n hwyrach
Data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru	Detholiad bach o dablau i bob pwnc	Tablau ar gael ar ffurf data agored drwy StatsCymru. Byddai'n golygu y gellid torri tablau a siartiau o'r canlyniadau i lawr yn ôl nifer fach o nodweddion.	Cyhoeddi'n hwyrach

Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio'r canlynol o 1 (y mwyaf defnyddiol) i 5 (y lleiaf defnyddiol),

Ffigur 3: Yr opsiynau cyhoeddi mwyaf defnyddiol ar gyfer y dadansoddiad dilynol (canran yr ymatebwyr a dywedodd 'mwyaf defnyddiol' neu 'defnyddiol' ar gyfer pob opsiwn)



Mae dewisiadau'r defnyddwyr ar gyfer y dadansoddiad dilynol yn debyg i'r rhai ar gyfer y prif ganlyniadau. Yr opsiwn a ffeirir yw bwletinau byrion o tua 2-3 tudalen (a nodwyd fel y mwyaf defnyddiol gan 65 y cant o'r ymatebwyr). Bwletinau manwl o tua 6-8 tudalen oedd yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd (a nodwyd fel y mwyaf poblogaidd gan 44 y cant o'r ymatebwyr). Yr opsiwn lleiaf poblogaidd ymhlith yr ymatebwyr ar gyfer y dadansoddiad dilynol oedd bwletinau ffeithluniau byrion.

Sylwadau defnyddwyr ar y dadansoddiad dilynol

Gofynnwyd i ddefnyddwyr am sylwadau ar yr opsiwn a ffeirid ganddynt ar gyfer y dadansoddiad dilynol. Ymatebodd tri o ddefnyddwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion yn debyg i'r rhai a roddwyd ar gyfer y prif ganlyniadau, lle nodwyd yr angen i ddarparu data manwl.

“Cael gwybodaeth eglur, fanwl, sydd ar gael ac sy'n hygyrch.”

“Mae'n bwysig sicrhau nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar ei phen ei hun ond bod sail resymegol i gyd-fynd â hi.”

“Mae bwletin manwl o'r pwys mwyaf i XXXX er mwyn cael y prif ganlyniadau a'r ffigurau ond hefyd y dadansoddiad mwy manwl a'r cyd-destun polisi sy'n cyd-fynd â hynny.”

Sylwadau defnyddwyr ar unrhyw ffyrdd eraill o gyflwyno'r canlyniadau

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd unrhyw ffyrdd eraill o gyflwyno'r canlyniadau (naill ai'r prif ganlyniadau neu'r dadansoddiad pwnc benodol) a fyddai'n helpu i'w gwneud yn ddefnyddiol. Ymatebodd bump o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai digwyddiadau fel gweminar a sesiynau holi ac ateb yn ddefnyddiol, a nodwyd eto'r angen i gael mynediad at y setiau data manwl.

“Gweminar”

“Pan fydd y ffigurau ar dlodi tanwydd yn cael eu rhyddhau byddai'n ddefnyddiol pe ceid cyflwyniad ffurfiol o'r canlyniadau gyda sesiwn Holi ac Ateb â rhanddeiliaid.”

“Byddai Ffeithluniau sy'n gysylltiedig â data Excel yn fuddiol.”

“Byddai'n help pe gallai Llywodraeth Cymru ryddhau'r set data ar gyfer dadansoddiad pwrpasol, yn ogystal â dadansoddiadau a thueddiadau manwl.”

Ymatebion i Adran 4: Blaenoriaethau ar gyfer pynciau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru


Cyflwynwyd rhestr i'r ymatebwyr o chwech o bynciau allweddol o'r WHCS:

- Nodweddion a chyflwr y stoc dai (e.e. oed y stoc, math, deiliadaeth, adeiladwaith, amwynderau, darpariaeth parcio, gofod allanol, hygyrchedd, yr ardal leol); nodweddion yr aelwyd (lefelau deiliadaeth, oedran y penteulu, cyfansoddiad yr aelwyd, cyllid tai ac ati.)
- Safon Ansawdd Tai Cymru
- System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai

- Costau Trwsio
- Effeithlonrwydd Ynni Anheddau (gan gynnwys mesurau gwresogi ac ynni ac ati)
- Cysylltu data tai o ACTC â data ar iechyd a llesiant o Arolwg Cenedlaethol Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa rai o'r pynciau uchod fyddai eu blaenoriaeth o ran eu cyhoeddi. Gofynnwyd iddynt sgorio pob pwnc ar raddfa o 1 (y flaenoriaeth uchaf) i 6 (y flaenoriaeth isaf).

Ffigur 4: Blaenoriaethau ar gyfer pynciau'r arolwg (canran yr ymatebwyr a ddewisodd '1' neu '2' allan o 6 ar gyfer pob opsiwn)



Y pwnc yn yr arolwg oedd o ddiddordeb mwyaf i ddefnyddwyr oedd y stoc dai a nodweddion aelwydydd a nodwyd, a oedd o ddiddordeb mwyaf i 68 y cant o'r ymatebwyr. Y pynciau mwyaf poblogaidd wedyn oedd effeithlonrwydd ynni anheddau (a nodwyd fel bod o fwyaf o ddiddordeb gan 39 y cant o ymatebwyr), cysylltu data tai o'r WHCS â data ar iechyd a llesiant o Arolwg Cenedlaethol Cymru (37 y cant) a Safon Ansawdd Tai Cymru (32 y cant).

Sylwadau defnyddwyr ar unrhyw bwnc arall o ddiddordeb

Mae rhestr lawn o bynciau i'w gweld ar [ffurflen yr arolwg](#). Gofynnwyd i ddefnyddwyr am sylwadau ar unrhyw bynciau eraill oedd o ddiddordeb iddynt. Ymatebodd wyth o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Soniodd un defnyddiwr am dlodi tanwydd – ymdrinnir â'r dadansoddiad hwn ar wahân a bydd yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn 2019.

“Llifogydd – achosion ac amllder, Ynni gwyrdd yn benodol.”

“Cymhariaeth â Lloegr yr Alban a [Gogledd] Iwerddon.”

Tarddiad ethnig a data arall sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a all gael ei gynnwys yn eich pwnc 'nodweddion aelwydydd'.”

“Anabledd a hygyrchedd ac argaeledd anghenion eraill i bawb.”

“Tlodi, troseddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol.”

6. Casgliadau

Mae canlyniadau'r Arolwg Defnyddwyr ynghyd â'n trafodaeth â Llywodraeth Cymru a rhai rhanddeiliaid allanol wedi goleuo ein bwriadau ar gyfer y camau nesaf o ran lledaenu canlyniadau WHCS 2017-18, yn enwedig ein blaenoriaethau o ran amseriad a fformat datganiadau.

Ein bwriadau yw:

- cyhoeddi Datganiad Ystadegol Cyntaf byr o'r prif ffigurau o WHCS 2017-18, gyda thablau Excel o'r prif ddata, ym mis Tachwedd 2018. Y cydbwysedd yma fydd sicrhau yr ymdrinnir â digon o bynciau'r arolwg i roi darlun cywir o'r data sydd ar gael, gan sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol – gan alluogi defnyddwyr i gael mynediad at setiau data manwl;
- dechrau gweithio ar ddadansoddiad pwnc benodol ar ôl cyhoeddi'r prif ganlyniadau. Gwneir hyn ar ffurf Bwletinau Ystadegol byr gyda thablau Excel o'r canlyniadau i gyd-fynd â hwy. Mae'n debyg mai stoc dai a nodweddion aelwydydd fydd y pwnc cyntaf, gan mai dyna ddewis defnyddwyr;
- archifo setiau data gyda Gwasanaeth Data'r DU mor agos at adeg cyhoeddi'r Datganiad Ystadegol Cyntaf â phosibl;
- galluogi defnyddwyr i wneud cais i ni am fynediad at setiau data mwy manwl ar gyfer darnau penodol o ddadansoddiadau, o dan Gytundebau Mynediad at Ddata; a
- yn y tymor hir datblygu rhyw fath o gyfrwng rhyngweithiol i weld data.

Atodiad A: Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18 – Opsiynau Allbynnau

Trosolwg

O hydref 2018, bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. Mae'r holiadur hwn yn gofyn beth yw barn defnyddwyr am fathau a phynciau'r allbynnau y dylem eu cyhoeddi. Ceir mwy o wybodaeth am Arolwg Cyflwr Tai Cymru, gan gynnwys ffurflen yr arolwg, ar y [dudalen we](#).

Sut i ymateb

Bydd yn cymryd tua 5 munud i lenwi'r ffurflen. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 16 Mawrth 2018.

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os byddai'n well gennych siarad yn uniongyrchol ag aelod o'r tîm, cysylltwch ag Elinor Griffiths ar 0300 025 5514, Mike Ford ar 0300 025 0357 neu anfonwch ebost i Ystadegau.Cyflwrtai@llyw.cymru.

[Darllenwch am hunaniaeth gudd](#) Diolch am gymryd rhan.

Adran 1: Eich prif flaenoriaethau ar gyfer canlyniadau ACTC 2017-18

O ran canlyniadau ACTC, beth yw eich prif flaenoriaethau? Rhwch sgôr i'r pum pwynt isod o 1 i 5, lle mae 1 = eich blaenoriaeth uchaf a 5 = eich blaenoriaeth isaf. Defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig.

	1	2	3	4	5
Derbyn y prif ganlyniadau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cyflwyno'r canlyniadau mewn modd diddorol (e.e. defnyddio sleidiau PowerPoint / ffeithluniau)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Lwfansau cyfeiliornad (e.e. "plws neu minws X%" yn y canlyniadau)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cyd-destun polisi manwl i'r canlyniadau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Dadansoddiad manwl o'r canlyniadau	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Adran 2: Prif Ganlyniadau

Yn hydref 2018, byddwn yn cyhoeddi prif ganlyniadau ACTC 17-18. Mae hyn yn ofynnol ar gyfer Ystadegau Gwladol ac mae'n rhyddhau data i lygad y cyhoedd i'w ddefnyddio'n ehangach. Nodir yr opsiynau rydym yn eu hystyried o ran ffurf y prif ganlyniadau hyn isod. Sylwer y bydd tablau ategol Excel/StatsCymru ar gael i bob opsiwn, lle'n briodol.

Math	Hyd	Ffurf	Amseroldeb [1]
Datganiad Ystadegol Cyntaf	Byr (tua 4-5 tudalen)	Detholiad bach o destun, tablau a siartiau	Cyhoeddi'n gynt (dechrau hydref 2018)
Sleidiau o'r canlyniadau allweddol	Byr (tua 8-10 sleid)	Detholiad bach o siartiau a ffeithluniau	Cyhoeddi'n gynt (dechrau hydref 2018)
Bwletin ffeithluniau byr	Byr (tua 2-3 tudalen)	Ffeithluniau'n bennaf	Cyhoeddi'n hwyrach (diwedd hydref 2018)
Datganiad manwl	Hir (tua 10-15 tudalen)	Cymysgedd o naratif a siartiau	Cyhoeddi'n hwyrach (diwedd 2018)
Data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru	Detholiad bach o dablau'n cyflwyno'r canlyniadau lefel uchel	Tablau ar gael ar ffurf data agored drwy StatsCymru	Cyhoeddi'n hwyrach (diwedd 2018)

[1] Byddai allbynnau sy'n hawdd i'w cynhyrchu, megis datganiadau byr, yn cael eu cyhoeddi'n gynt. Mae'r amserlenni a nodir yma'n rhai dangosol.

Pa un o'r dulliau uchod fydd orau gennych ar gyfer y prif ganlyniadau?

3) Rhowch sgôr iddynt o 1 i 5, lle mae 1 = mwyaf defnyddiol a 5 = lleiaf defnyddiol. Defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig.

	1	2	3	4	5
Datganiad Ystadegol Cyntaf Byr (4-5 tudalen)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sleidiau o'r canlyniadau allweddol (8-10 sleid)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Bwletin ffeithluniau byr (2-3 tudalen)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Datganiad Ystadegol Cyntaf Manwl (10-15 tudalen)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

4) Nodwch unrhyw sylwadau ar yr opsiwn rydych yn ei ffafrio.

Adran 3: Dadansoddi Dilynol

Sylwer yr ymdrinnir ar wahân â ffigurau a dadansoddiadau Tlodi Tanwydd ac fe'u cyhoeddir erbyn diwedd 2018.

Ar ôl cyhoeddi'r prif ganlyniadau, gallwn ddechrau gweithio ar ddadansoddiadau mwy manwl sy'n benodol i'r amrywiol bynciau yr ymdrinnir â hwy yn yr arolwg. Nodir isod yr opsiynau rydym yn eu hystyried ar gyfer y dadansoddiad dilynol. Sylwer y bydd tablau ategol Excel/StatsCymru ar gael i bob opsiwn, lle'n briodol.

Math	Hyd	Ffurf	Amseroldeb
Bwletinâu byr	Byr (tua 2-3 tudalen)	Canlyniadau allweddol - testun, siartiau a thablau'n bennaf. Dim ond cyfeiriad byr at y cyd destun polisi.	Cyhoeddi'n gynt.
Sleidiau o'r canlyniadau allweddol	Byr (tua 8-10 sleid)	Detholiad bach o siartiau a ffeithluniau	Cyhoeddi'n gynt
Bwletinâu ffeithluniau byr	Byr (tua 2-3 tudalen)	Ffeithluniau'n bennaf	Cyhoeddi'n hwyrach
Datganiadau manwl	Hir (tua 6-8 tudalen)	Cymysgedd o naratif, siartiau a dadansoddi mwy trylwyr. Mwy o drafod ar y cyd destun polisi.	Cyhoeddi'n hwyrach
Data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru	Detholiad bach o dablau i bob pwnc	Tablau ar gael ar ffurf data agored drwy StatsCymru. Byddai'n golygu y gellid torri tablau a siartiau o'r canlyniadau i lawr yn ôl nifer fach o nodweddion.	Cyhoeddi'n hwyrach

Pa un o'r dulliau uchod fydd orau gennych?

5) Rhowch sgôr iddynt o 1 i 5, lle mae 1 = mwyaf defnyddiol a 5 = lleiaf defnyddiol. Defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig.

	1	2	3	4	5
Bwletinâu byr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Sleidiau o'r canlyniadau allweddol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Bwletinâu ffeithluniau byr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

	1	2	3	4	5
Datganiadau manwl	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Data rhyngweithiol ar wefan StatsCymru	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

6) Nodwch unrhyw sylwadau ar eich sgôr i'r opsiynau uchod.

7) A oes ffyrdd eraill o gyflwyno ein canlyniadau (naill ai ar gyfer y prif ganlyniadau neu'r dadansoddiadau pwnc-benodol) a fyddai o gymorth i'w gwneud yn ddefnyddiol i chi?

Adran 4: Ym mha bynciau yn ACTC 2017-18 y mae gennych fwyaf o ddiddordeb?

Sylwer yr ymdrinnir ar wahân â ffigurau a dadansoddiadau Tlodi Tanwydd ac fe'u cyhoeddir erbyn diwedd 2018.

Rhestrir isod bynciau allweddol ACTC. Gallai fod yn bosib cysylltu data tai o ACTC â data o Arolwg Cenedlaethol Cymru mewn meysydd megis iechyd a llesiant.

8) Pa rhai o'r pynciau yma fyddai eich blaenoriaeth o ran cyhoeddi? Rhowch sgôr iddynt o 1 i 6, lle mae 1 = eich blaenoriaeth uchaf a 6 = eich blaenoriaeth isaf. Defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig.

	1	2	3	4	5	6
Nodweddion a chyflwr y Stoc Dai (e.e. oedran y stoc, math, deiliadaeth, adeiladwaith, amwynderau, darpariaeth parcio, lle y tu allan, hygyrchedd, yr ardal leol); nodweddion tai (lefelau meddiannaeth, oedran pennaeth yr aelwyd, cyfansoddiad yr aelwyd, cyllid tai ayyb.)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Safon Ansawdd Tai Cymru	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Costau Atgyweirio	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Effeithlonrwydd Ynni Anheddau (gan gynnwys mesurau arbed ynni a gwres ayyb.)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cysylltu data tai o ACTC â data ar iechyd a llesiant o Arolwg Cenedlaethol Cymru	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Mae rhestr lawn o bynciau ACTC ar gael ar [ffurflen yr arolwg](#) (Saesneg yn unig).

9) A oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw bynciau eraill?

Adran 5: Eich manylion

Yn olaf, mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth gefndir ynglyn â ble rydych yn gweithio.

10) I ba fath o sefydliad ydych chi'n gweithio? Ticiwch un blwch yn unig.

- Awdurdod Lleol
- Sefydliad Trydydd Sector
- Cwmni Preifat
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Sefydliad Addysgol
- Llywodraeth Cymru
- Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru
- Adran Llywodraeth Ganolog/DU
- Asiantaeth/Corff a noddir gan Lywodraeth y DU
- Arall, rhowch fanylion

11) Ydych chi'n gweithio fel ...? Ticiwch un blwch yn unig.

- Dadansoddwr sector cyhoeddus/llywodraeth
- Academydd
- Gwneuthurwr polisi
- Swyddog cyfathrebu/digidol
- Arall, rhowch fanylion